**Eleri Mills** Taith Gelf : Dathlu'r 70



Yn ei thirweddau, mae **Eleri Mills** yn ein tywys ar daith: mae llwybrau yn ein denu'n ddyfnach i'r olygfa, yr afonydd yn troelli o amgylch y bryniau a'r mynyddoedd, a chefnforoedd enfawr yn awgrymu bydoedd pell. I Mills, mae'r llwybrau a'r dyfrffyrdd hyn fel gwythiennau – neu sianeli bywyd – sy'n bywiogi ei thirweddau Cymreig nodedig. Ynddynt, mae ffurfiau natur wedi'u clymu'n dynn gydag ymdeimlad dwfn o hanes a diwylliant, tra bod elfennau a ysbrydolwyd gan y dirwedd wedi'u cyfuno gydag elfennau sy'n tarddu o'u dychmyg.

Mae'r arddangosfa hon, sy'n dathlu pen-blwydd Mills yn 70 oed, yn olrhain ei thaith artistig ei hun dros y 25 mlynedd ddiwethaf. Bu'n gyfnod o archwilio brwd ac o ddilyn diddordebau artistig newydd, yng Nghymru a thu hwnt. Ar y naill law, mae hi wedi dyfnhau ei pherthynas â'r amgylchedd sydd agosaf ati – tirwedd ffrwythlon, ddigyffwrdd canolbarth Cymru, lle cafodd ei geni a'i magu, ac ar y llaw arall, mae hi wedi darganfod ysbrydoliaeth artistig ymhellach i ffwrdd, yn Llundain, Efrog Newydd

a Delhi. Yn ôl yn ei stiwdio yn Sir Drefaldwyn, mae hi wedi sianelu'r dylanwadau eang hyn i fewn i weithiau sy'n edrych i mewn ac allan.

Fel artist, mae Mills wastad yn cyfleu ymdeimlad dwfn o le, a ysbrydolwyd gan dirwedd Powys ond sydd wedi'i haddasu a'i hail-lunio i gonsurio tirwedd fwy chwedlonol. Dyma le sy'n dod o'r galon – yn llawn arwyddocâd personol a phwysigrwydd diwylliannol neu hanesyddol, a awgrymir yn ei theitlau. Daeth y syniad o greu'r *quadriptych Tirlun i Dywysogion* (*Landscape for Princes)* Mills ar ôl iddi ymweld â Sycharth, cartref Owain Glyndŵr, Tywysog brodorol olaf Cymru. Mae'r ffurf gron ar y brig yn ein hatgoffa o'r castell mwnt a beili a safai ar y safle ar un adeg; mae ailadrodd y ffurf yn y pedwar darlun yn cyfleu cysondeb, tra bod y llwybrau, y dyfrffyrdd a'r coed, sy'n wahanol ymhob llun, yn cyfleu'r newidiadau a ddaw gyda threigl amser. Ochr yn ochr â chyfeiriadau hanesyddol, mae Mills hefyd yn ymddiddori yn nhraddodiad barddol Cymru. Mae *Y Dref Wen (Borderland)*, er enghraifft, yn cyfeirio at y dref deg neu annwyl a grybwyllir ym marddoniaeth gynnar Cymru (*Canu Heledd* yn *Llyfr Coch Hergest*). Credir fod y dref yn gyfeiriad at deyrnas gynnar Powys, a gafodd ei chynnwys yn rhannol yn Lloegr, ac a adlewyrchir yn y teitl Saesneg *Borderland*.

Yn y gweithiau hyn, caiff natur ei gyflwyno fel rhywbeth trefnus a delfrydol, gan awgrymu oes aur goll. Mae'r *idyll* hwn yn dwyn i gof 'lle dymunol' (*locus amoenus*) llenyddiaeth glasurol, lle mae bodau dynol yn byw mewn cytgord â byd natur – dyma syniad o fyd natur sy'n ganolog draddodiad tirweddau Ewrop, o Giorgione i Richard Wilson a thu hwnt. Mae Wilson, ynghyd â Samuel Palmer, J.D. Innes a David Hockney i gyd yn artistiaid y mae Mills yn eu hedmygu. Fel ei rhagflaenwyr, mae hi'n defnyddio lliwiau sy'n tawelu ac yn bywiogi, ac yn llunio cyfansoddiadau sy'n ein denu i mewn ac yn fframio'r olygfa fel coflaid.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Mills wedi cyfnewid ei lliwiau llachar am balet monoton. Drwy ddefnyddio inc a phastel, mae hi'n adeiladu ei delweddau gyda marciau llinol rhythmig, tebyg i'r manylion wedi eu pwytho sy'n nodweddu ei gyrfa gynharach. Mae ganddi broses greadigol ddeinamig, gan sefyll i weithio a symud o gwmpas y stiwdio'n gyson, i ddatblygu sawl darn o waith ar yr un pryd. Mae'r newid yn y palet hefyd wedi arwain at newid o ran tôn. Yn ei gweithiau diweddaraf *Llefydd Gwyllt y Galon (Wild Places of the Heart),* caiff natur ei gyflwyno'n fwy mawreddog, gwyllt a dramatig, gyda bryniau crwn ei gweithiau cynharach wedi'u disodli gan gopaon uwch, mwy garw a phigfain. Mae eu maint yn llawer mwy na'r ffigurau dynol bach a bortreadir – ffigurau sy'n cyflwyno naratif i'r olygfa ond hefyd yn ein gwahodd i gyd-droedio'r llwybrau drwy'r dirwedd. Yn y darluniau hyn, mae Mills yn ymgysylltu â'r traddodiad Rhamantaidd, a siapiodd hanes peintio tirweddau yng Nghymru yn y 18fed ganrif. Mae *Y Bwlch (The Pass)*, er enghraifft, yn mynd â ni i gopaon y mynyddoedd, gyda'r wynebau creigiog dramatig yn disgyn mor serth â'r ffordd o'n blaenau.


Ond mae'r ymdeimlad o dawelwch a llonyddwch yn parhau mewn nifer o'r gweithiau. Mae *Yn yr Ardd o Gariad I (In the Garden I)*, a grëwyd yn ystod cyfnod Covid, yn cyflwyno gardd hudolus, lle mae grŵp teuluol yn ymgynnull yn llawen o dan gysgod amddiffynnol y coed. Yn y gwaith bychan *Pastoral (Pastoral)*, mae'r amgylchedd naturiol eto'n warchodol, gyda'r defaid yn pori yn talu teyrnged i hen draddodiadau ffermio sy'n raddol ddiflannu. Wedi ei magu mewn teulu o ffermwyr, mae Mills yn awyddus i fynd i'r afael â'r effaith y mae newidiadau diweddar yn eu cael ar y dirwedd. Mae *Yn y Dyffryn (In the Valley)* yn perthyn i grŵp o weithiau sy'n dathlu harddwch naturiol Dyffryn Banw, lle cafodd ei geni a lle y mae'n parhau i fyw – amgylchedd y mae hi'n ofni sydd dan fygythiad.

Dyma dirwedd y mae Mills wedi byw a bod ynddi erioed, ac wedi'i sianelu yn ei gwaith celf ers degawdau. Drwy ei pherthynas bersonol a chelfyddydol agos â'i hamgylchedd, mae ei gweithiau yn ein gwahodd i oedi ac i fyfyrio – ar y gorffennol, y presennol a'r dyfodol – ac i gynnig eiliad o lonyddwch mewn byd o newid.

**Mari Griffith**

Medi 2025

---




C E L F   G A L L E R Y

Roath Park Hall, Bangor Street

Caerdydd, CF24 3NA

www.celfgallery.com

info@celfgallery.com